The change in legislation introduced in Wales increased the number of reservoirs that required legislation from 227 to 365, an increase of 60%. In order to regulate these effectively, we need to increase our staff resource by 2 FTE, at a total additional cost (with on-costs) of approx. £90k. We have received budget from WG for this up to end of 2020/21, but this is a continuous requirement and cost that we would wish to see baselined. If we cannot, we may need to cut our activities elsewhere, or lower our level of regulatory service, with subsequent risks. There are charges (to the owner) for reservoir regulation but these are not sufficient to cover our costs despite being set within the last five years at higher levels than previously. Increasing the charges again would be deeply sensitive, and of course unpopular.

6. Implications for NRW of the UK’s exit from the EU

“... actions NRW is taking to respond to the potential stockpiling of products and waste at ports in the event of a no-deal Brexit.”

NRW and Welsh Local Government Association are contributing to development of, and delivery of actions identified in Welsh Government’s Waste Risk and Mitigation plan. This plan has considered potential issues related to disruption in logistics, including ports and the potential for increased waste arisings. We are also involved in Defra/devolved administration and associated regulatory agencies waste contingency planning.

We are coordinating our efforts across our organisation on an approach to potential stockpiling. We have reviewed operator waste returns and other available data on waste movement to inform an assessment of potential disruption and capacity available in landfill, energy from waste and biowaste treatment sites in Wales. This work has indicated that most of waste generated in Wales is initially dealt with in Wales. There are limited exports of waste from Welsh ports. Of the amount that is exported to the EU, a significant % of this is metal (ferrous metals) which presents a low risk as the material is in a stable form

which can be safely stored at existing authorised facilities. There is a significant flow of waste that goes to England for processing into waste derived fuel and separate recyclates that gets exported to Europe. Disruptions at English ports may therefore restrict flow of these materials and result in “bottle necks” back along the chain to producers/generators. We have participated in UK and Wales wide stakeholder meetings to highlight to waste exporters the measures in place to help reduce border disruption in a no deal scenario. For example, we, along with other UK regulators, have contacted all EU competent authorities and secured agreement that all UK consents for shipments of notifiable waste that go beyond 29 March 2019 will be rolled over. We are encouraging operators to assess the impact that delays to waste exports may have on their operations and consider storage and alternative waste management options in case of disruption at ports. The key message given to operators of permitted sites is that the permit still applies and they are expected to continue to meet its conditions. We will be prioritising our compliance assessment activities on a risk basis.

We have also met with UK wide industry trade associations and encouraged operators to have contingency plans in place for the storage of raw materials, by-products, products and waste materials in the event that established transport routes are affected by EU exit. Feedback from industry indicates that arrangements have been put in place and no major disruption is expected in Wales. We will continue to engage with industry and the other UK regulators to ensure we are aware of any issues that arise.

“... discussions NRW has had with ports and how you have fed into the Welsh Government’s contingency plan for port traffic...”

NRW is working closely with Welsh Government and other agencies throughout Wales on potential issues at ports (including the ports of Holyhead, Pembroke, Fishguard, Barry, Cardiff and Newport).

NRW attends the Holyhead Port Multi Agency Plan Task & Finish Group, chaired by the North Wales Police Chief Inspector. NRW has been involved in a multi-agency desktop exercise at Holyhead and is due to attend a second exercise later in March. Contingency plans for port traffic developed by Welsh Government has involved close coordination with the Holyhead Port Multi Agency Plan Task & Finish Group and the relevant Local Resilience Forums.

As a member of the local resilience groups NRW has fed into the development of port contingency plans. NRW is supportive of the approaches set-out in the contingency plans as they seek to minimise wider disruption and help to ensure any potential accidents and incidents, such as pollution events, are contained and in areas with known drainage infrastructure and good access for emergency services.

“... what the £3.7 million requested by NRW from the Welsh Government to support Brexit-related work would be spent on, and the implications if you are unable to secure this funding.”

Our Initial bid for Brexit funding was made in February 2018 and was based on Brexit with a deal. The scope and scale of the work required was conservative and focused on providing specialist advice and guidance to Welsh Government and working with sectors in Wales and across the UK to review and inform the development of new environmental standards, policy and delivery mechanisms post Brexit. It was anticipated that this work would include:

- development of the post Brexit agricultural support scheme;
- development of the post Brexit marine fisheries scheme;
- strengthening and/or building new relationships with UK institutions picking up responsibilities previously undertaken by the Commission;
- building our International links with Environmental Protection Bodies in the EU and beyond, to ensure we draw on the best evidence and insight into new and innovative approaches to natural resource management.

There is significant uncertainty about the precise issues we will face in a no deal Brexit, but we are anticipating issues in for example:

- the waste sector – as mentioned above;
- the water sector;
- increases in pollution incidents potentially because of poor chemical or waste storage;
- additional applications for permits and licences in short timescales.

We are committed to working in a flexible and agile way to deal with the range of issues Wales will face in a no deal scenario and supporting our partners in the Local Resilience Forums as appropriate. This will inevitably mean that in the short term we will stop and/or slow down some of our core work areas to meet the new demands upon us.

Our submission to Welsh Government has not resulted in any additional funding for 2019-20 so we have agreed with officials to absorb the additional cost in 2019-20 using our underspend. We have the agreement of officials to submit a revised bid for additional funding for 2020-21 and 2021-22 to Welsh Government for consideration. By this stage we would expect to have greater clarity on the terms of the agreement that the UK has secured from Europe. If we are unsuccessful in securing funding in future years we will have to reprioritise our business plan which will have implications for our ability to contribute to Welsh and UK discussions on future environmental standards, regulation and advice responsibilities. It could also impact our core work programme and our ability to respond to environmental incidents.

7. Environmental Permitting

“We would like further clarification on this issue, including the timeframe you will be working towards for completion of the matrix.”

The statutory guidance on Part 1 of Environment (Wales) Act 2016, provides clarity on the application of our statutory purpose in our functional roles and duties. The guidance also provides clarity on how the requirements of the Environment (Wales) Act and Well-being of

Future Generations (Wales) Act work together. Our interpretation of the Guidance is that in applying our purpose – the objective and principles of Sustainable Management of Natural Resources (SMNR) - we also meet the requirements of the WFG Act in relation to the Sustainable Development principle. As we state in paragraph 69 of our written evidence Welsh Government Officials met with the FGC Office. We have not had any feedback from Welsh Government since that meeting that our interpretation of the statutory guidance needs to change.

We do not intend to do any further work on the matrix. As we state in paragraphs 65 and 66 of our written evidence and as we said during the committee session we intend instead to focus on how the purpose of SMNR and the principles apply to Environmental Permitting Regulations. We are following the process set out in Annex 1 of the statutory guidance. Work has started on this function first, because of the concerns raised by the FGC Commissioner. We intend to work on this approach with the FGC officers and Welsh Government officials. This “root and branch” exercise will be running throughout spring and summer of 2019. We will be using our 2019-20 Annual Report to set out our findings.

8. Community Engagement

“We would welcome further details on these projects, including the outcomes anticipated and how they will be measured.”

Greener Grangetown - Greener Grangetown is an innovative £2 million partnership project between Cardiff Council, Dŵr Cymru Welsh Water and Natural Resources Wales, supported by the Landfill Communities Fund. The project uses the latest drainage techniques to catch, clean and divert rainwater directly into the River Taff instead of collecting and pumping it eight miles to a treatment works in the Vale of Glamorgan and then discharging it out to sea. The project also aims to use the introduction of Sustainable Drainage Systems (SuDS) to deliver multiple benefits for the community and the environment, making Grangetown a cleaner, greener place to live for generations to come, with less commuter parking, safer walking and cycling facilities, and increased biodiversity and green infrastructure.

The scheme has seen the creation of 108 rain gardens and kerbside planting areas. These areas not only help to improve local drainage, but also enhance local biodiversity and wildlife, and deliver important improvements to water quality in the River Taff. The scheme has 135 new semi-mature trees and 1,600m² of new green space, which is already providing new homes for wildlife and has opened up new opportunities for people to enjoy walking, cycling and other recreation close to where they live and work. There is overwhelming research that being closer to green space also improves people’s physical and mental well-being. At the same time, more greenery and tree planting will mean noise and pollutants should be better absorbed, and air will be cleaner too. Through Greener Grangetown, NRW always wanted to create a legacy to show how green infrastructure projects can create healthy and resilient local environments, and support economic and social prosperity for generations to come. We believe this scheme, in addition to the positive changes that last January’s SuDS legislation are already bringing, will enable us all to tackle local challenges a lot better across many towns and cities in Wales, including

Cardiff. The scheme was officially opened in October 2018 and has also attracted interest from around the world. It also won a 2018 Water Industry Award for UK Engineering Project of the Year.

Denbighshire Green Prescribing project – The Denbighshire Green Prescribing project ‘Nature for Health (NFH)’ received funding via our last SMNR Open Call grant scheme. Nature for Health is a collaborative 18 month environmental social prescribing project, jointly delivered by Denbighshire Housing and Countryside Service, funded through Natural Resources Wales, and supported by the health board and Bangor University. The project provides weekly on the doorstep opportunities to help people live healthier and more fulfilled lives through improved access to the natural environment. The scheme is operating in 4 pilot areas – Rhyl, Prestatyn, Corwen and Llangollen. The pilot areas were selected based on Denbighshire’s Housing Dept assets and associated community involvement.

The project further works with a range of working partners to actively promote the natural environment as an asset to improved health and well-being through encouraging and supporting individuals to get outside in their own community. The project works in partnership to deliver:

- Environmental health and well-being sessions with schools
- Develop training, walking and volunteering sessions
- Improve access to green spaces
- Attend and lead on wider community engagement activities

Currently there are 60+ people engaged in led walks and weekly volunteering sessions; regular meetings between NFH staff, Health Centres and referral agencies; 20+ weekly/monthly volunteer led walks across the county; a number of green spaces improved including access paths, wildflower area and creation of growing areas.

The outcomes of the project include:

- Created a partnership working approach to tackling health issues through the use of the natural environment.
- Created working relationship for future projects
- Established a monitoring and evaluation tool kit to be used / support on future environmental social prescribing projects
- Stronger strategic working partnership
- Participants feeling improved physical and mental wellbeing
- Participants taking part in self-motivated environmental social prescribing opportunities within their own communities
- Communities and Individuals are more aware of the benefits of environmental social prescribing
- Communities / individuals are more confident to take part in local environmental social prescribing activities
- Young members of the community have taken part on environmental / environmental social prescribing awareness sessions
- Community members trained up to deliver and support environmental social prescribing session.

The partnership has decided to use the Warwick Edinburgh Mental Well-being Scale (WEMWBS) as the evaluation toolkit to evaluate the benefits of regular participation in environmental activities. The health board will be providing the Elemental software to support evaluation as this will record the progress of social prescribing across North Wales. Case studies will also be used to share outcomes and promote the project.

As mentioned at the evidence session last month we would be pleased to offer the committee opportunities to see our work taking place across Wales and we would welcome the opportunity to facilitate some site visits for committee members.

Yours sincerely,

Clare Pillman
Prif Weithredwr, Cyfoeth Naturiol Cymru
Chief Executive, Natural Resources Wales

5 Ebrill 2019

Lesley Griffiths AC
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Annwyl Lesley

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Mawrth a'ch ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Pysgodfeydd.

Trafododd y Pwyllgor eich ymateb yn ei gyfarfod ar 3 Ebrill, gan gytuno y dylwn ysgrifennu atoch ynghylch nifer o faterion.

Yr angen am ddeddfwriaeth a'r dull gweithredu a fabwysiadwyd (Casgliadau 1 i 6)

Casgliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru esbonio pam ei bod wedi methu â chyflawni ymrwymadau a roddwyd ganddi i'r Pwyllgor hwn yn flaenorol mewn perthynas â datblygu fframweithiau cyffredin y DU. Yn benodol, dylai esbonio pam na ddatblygwyd Bil y DU mewn cydweithrediad a pham na chafodd rhanddeiliaid eu cynnwys yn ddigon cynnar yn ei ddatblygiad.

Er ei bod yn glir yn eich ymateb eich bod yn fodlon eich bod wedi cyflawni'r ymrwymadau a roesoch yn flaenorol mewn perthynas â datblygu fframweithiau'r DU, nid yw'n mynd i'r afael â'r mater penodol ynghylch y diffyg cysylltiad â rhanddeiliaid wrth ddatblygu Bil y DU.

1. Hoffem i chi fynd i'r afael â'r mater hwn yn eich ymateb i'r llythyr hwn. A allwch chi roi enghreifftiau o sut y cafodd rhanddeiliaid eu cynnwys wrth ddatblygu Bil y DU? Nodwch pwy oedd y rhanddeiliaid hynny a sut y cawsant eu cynnwys.

Casgliad 3: Nid yw Llywodraeth Cymru wedi egluro diben ac effaith y darpariaethau ychwanegol hyn. Fel y cyfryw, nid ydym wedi ein hargyhoeddi hyd yma bod Llywodraeth



Cymru wedi darparu cyfiawnhad digonol ar gyfer y pwerau ychwanegol y mae'n eu ceisio trwy Fil y DU.

Casgliad 4: Dylai Llywodraeth Cymru egluro pwrpas ac effaith arfaethedig y pwerau gweithredol i Weinidogion Cymru yn Atodlenni 4, 6 a 7. Dylai nodi pa rai o'r pwerau hyn sydd o natur frys, ac a fyddai'n rhesymol gohirio unrhyw rai o'r pwerau hyd nes bod cymhwysedd y Cynulliad wedi'i ymestyn i ganiatáu cyflwyno Bil pysgodfeydd i Gymru yn y dyfodol.

Er eich bod wedi derbyn Casgliadau 3 a 4, nid yw eich ymateb mor gynhwysfawr ag y byddem wedi ei ddisgwyl. Mae'n ailadrodd llawer o'r wybodaeth sydd eisoes wedi'i nodi yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ac yn eich tystiolaeth i ni, heb ehangu ar y manylion.

2. A allwch chi roi eglurhad manylach o bwrpas ac effaith arfaethedig y pwerau gweithredol y tu hwnt i'r hyn sydd eisoes wedi'i gynnwys yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ac yn eich tystiolaeth i'r Pwyllgor? Dylai hyn wahaniaethu rhwng pwerau newydd a phwerau cyfredol.

Wrth ymateb i'n cais am eglurhad ynghylch pa rai o'r pwerau sy'n ddibynnol ar amser, rydych chi'n nodi:

“Efallai y bydd angen arfer y pwerau a ddarperir gan Fil Pysgodfeydd y DU ar y diwrnod cyntaf ar ôl ymadael â'r UE neu'n fuan iawn wedi hynny...[ac] nid ydym mewn sefyllfa i aros am Fil pysgodfeydd ar gyfer Cymru... Y dewis arall fyddai dibynnu ar yr Ysgrifennydd Gwladol i ddeddfu ar gyfer Cymru a pharth Cymru yn y cyfamser.”

Nodwn, fodd bynnag, fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud is-ddeddfwriaeth yn ddiweddar mewn perthynas â physgodfeydd ar y sail na fydd Bil Pysgodfeydd y DU wedi cwblhau ei daith drwy'r Senedd cyn i'r DU ymadael â'r UE. Mae hyn yn cynnwys deddfwriaeth i wahardd cychod pysgota tramor rhag pysgota yn nyfroedd Cymru heb drwydded.

3. A allwch chi egluro pa rai o'r pwerau penodol a ddarparwyd y gallai fod eu hangen yn y cyfnod yn syth ar ôl Brexit?



Casgliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo y bydd amser yn cael ei neilltuo yn y rhaglen ddeddfwriaethol i gyflwyno Bil pysgodfeydd i Gymru a'i gyflwyno cyn diwedd tymor y Pumed Cynulliad.

Rydych wedi dweud wrth y Pwyllgor hwn eich bod yn llwyr fwriadu y caiff Bil Pysgodfeydd i Gymru ei basio cyn diwedd y Cynulliad hwn. Fodd bynnag, rydych wedi gwrthod Casgliad 5 ar y sail ei bod yn anodd ymrwymo i amserlen nes bod Bil Pysgodfeydd y DU wedi cwblhau ei daith drwy'r Senedd. Cyn bo hir byddwch yn gofyn i'r Cynulliad ildio ei bwerau deddfwriaethol, fel y gall Senedd y DU ddeddfu yn y maes hwn. Dywedoch wrthym fod hyn at ddibenion trosiannol. Credwn ei bod yn ddyletswydd arnoch i esbonio i'r Cynulliad pryd y bydd y Bil hwn yn disodli'r trefniadau trosiannol hynny. O ystyried ein bod yn nesáu at bedwaredd flwyddyn y Pumed Cynulliad, rydym yn parhau i bryderu na fydd digon o amser yn weddill yn y Cynulliad hwn i ddeddfu ar gyfer polisi pysgodfeydd yng Nghymru yn y dyfodol.

4. A allwch chi egluro pryd y byddwch mewn sefyllfa i roi gwybod i ni beth yw eich bwriad o ran cyflwyno Bil ar gyfer Cymru?

Mynediad i bysgodfeydd Prydain (Casgliadau 12 i 15)

Casgliad 13: Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion ar y cynnig i'r Sefydliad Rheoli Morol gyhoeddi trwydded unigol i longau pysgota tramor. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y byddai hyn yn effeithio ar ei phŵer i roi trwyddedau, yn arbennig, gallu Gweinidogion Cymru i osod amodau trwydded penodol ar gychod pysgota tramor mewn perthynas â pharth Cymru. Er enghraifft, mynnu bod monitro CCTV ar fwrdd llongau.

Yn eich ymateb, rydych yn egluro y bydd Awdurdod Dyroddi Sengl, sef y Sefydliad Rheoli Morol, yn cyflwyno trwyddedau yn ymarferol, ond mai “mater i Weinidogion Cymru fydd gosod amodau trwydded priodol a chymesur mewn perthynas â Chymru a pharth Cymru”. Rydym yn croesawu'r eglurhad hwn. Fodd bynnag, nid yw eich ymateb yn cynnwys manylion am sut a phryd y bydd Gweinidogion Cymru yn gosod amodau trwyddedu ar gyfer llongau tramor.

Wrth baratoi ar gyfer y posibilrwydd o ymadael â'r UE cyn i Fil y DU gael Cydsyniad Brenhinol, nodwn eich bod wedi gwneud is-ddeddfwriaeth yn ddiweddar at ddibenion rheoli llongau tramor yn nyfroedd Cymru ar ôl Brexit. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth honno yn dweud:



“It is intended that foreign vessels will comply with the same standards applied to the domestic fleet, along with additional requirements such as catch and position reporting.”

5. A allwch chi ddarparu manylion pellach, y tu hwnt i'r rhai a nodir uchod, am sut a phryd y bydd y gofynion ychwanegol hyn yn cael eu pennu?

Cyfleoedd pysgota a chyfran o'r cwota (Casgliadau 16 i 20)

Roedd casgliadau 16 i 20 yn galw am y canlynol:

- camau pellach i fynd i'r afael â'r annhegwch sylfaenol yn nyraniad cwota'r DU, yn benodol newidiadau ychwanegol i Erthygl 17 o reoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ac adolygiad o'r Concordat Pysgodfeydd (Casgliadau 16 a 17);
- dylid dyrannu cwota newydd yn unol â meini prawf amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd, gyda'r bwriad o fynd i'r afael â'r anghydbwysedd yng nghyfran Cymru o'r cwota (Casgliad 18);
- diwygiad i Fil y DU i fynd i'r afael â phryderon ynghylch hyd a lled pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â phenderfynu ar gyfleoedd pysgota (Casgliad 19);
a
- thystiolaeth glir o'r camau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau gwelliannau yng nghyfran Cymru o'r cwota (Casgliad 20).

Er eich bod wedi derbyn y rhain (neu yn achos Casgliad 17, eu derbyn mewn egwyddor), nid yw'r naratif yn adlewyrchu hyn.

Rydych yn nodi, “nid oes angen diwygio Erthygl 17 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r DU roi'r gorau i ddefnyddio daliadau hanesyddol fel y prif ffactor ar gyfer penderfynu ar ddyraniad. Mae Erthygl 17 yn darparu ystod o ystyriaethau.”

Er ein bod yn cydnabod hyn, clywsom mewn tystiolaeth bod cymhwyso Erthygl 17 yn broblematig ac mae'r ffaith nad oes gofyniad i ddefnyddio meini prawf amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd wrth ddyrannu cwota yn golygu bod gorddibyniaeth ar feini prawf ynghylch daliadau hanesyddol ar gyfer dyrannu cwota. O ganlyniad, gwnaethom alw am newidiadau i Erthygl 17 i fynd i'r afael â hyn, ond nid ydych wedi eu derbyn. Yn lle hynny, rydych chi'n dweud, “rhaid i unrhyw ddull newydd [o ran dyrannu cwota] fod yn deg ac yn gynaliadwy yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015”. Nid yw'n glir beth fydd hyn yn ei olygu yn ymarferol.



6. A allwch chi roi manylion i'r Pwyllgor am unrhyw ymgynghoriad yr ydych wedi'i gynnal â rhanddeiliaid ar y darpariaethau hyn?

Yn eich llythyr eglurhaol, rydych yn cyfeirio at ohebiaeth â Gweinidogion y DU lle yr ydych chi'n mynegi barn ar yr angen am "setliad gwell" ar gyfer cyfleoedd pysgota yng Nghymru.

7. Hoffem i chi rannu'r ohebiaeth honno, ac unrhyw ymatebion a gafwyd, â'r Pwyllgor i'n galluogi i ddeall yn well beth y byddech ch'n ei ystyried yn "setliad gwell" ar gyfer pysgodfeydd Cymru.

8. Hoffem i chi esbonio beth fydd sicrhau bod y dull o ran dyrannu cwota yn gyson â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei olygu'n ymarferol.

Nodwn eich bod eisoes yn trafod â Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill ynghylch "nifer o faterion [o ran dyrannu cwota] lle y [byddwch] yn chwilio am newid". Fodd bynnag, ni roddir unrhyw fanylion pellach. Hoffem i chi ddarparu manylion pellach am y materion hyn.

9. Hoffem i chi rannu â ni unrhyw ohebiaeth ddiweddar â Llywodraeth y DU mewn perthynas â chyfran Cymru o'r cwota, ac unrhyw ymatebion a gafwyd.

10. Hoffem gadarnhau eich bod yn mynd ati'n weithredol gyda Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i roi'r gorau i ddefnyddio daliadau hanesyddol fel y prif ffactor wrth benderfynu ynghylch dyrannu cwota.

Pwerau o ran cymorth ariannol a chyllid yn y dyfodol (Casgliadau 21 i 24)

Casgliad 23: Dylai Llywodraeth Cymru geisio ymrwymiad gan Lywodraeth y DU y bydd trefniadau cyllido'r sector pysgodfeydd yn y dyfodol yn cael eu datblygu mewn partneriaeth â'r gweinyddiaethau datganoledig ac y bydd partneriaid yn cael eu trin â pharch cydradd. Dylai hefyd ofyn am ymrwymiad y dylai lefel y cyllid ystyried unrhyw gostau ychwanegol sy'n deillio o Fil y DU.

Casgliad 24: Mae diffyg gwybodaeth o'r fath yn golygu bod risg o gamarwain y Cynulliad ynghylch y goblygiadau ariannol posibl sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth. Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r mater hwn. Os na fydd yn gwneud hynny, byddwn yn gofyn i'r Pwyllgor Cyllid ystyried hyn ac, os oes angen, cyflwyno diwygiadau priodol i'r Rheolau Sefydlog.



Wrth ymateb i'r casgliadau uchod, rydych yn nodi:

“Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill i nodi cyfleoedd i gynyddu twf economaidd sectorau morol y DU i'r eithaf. Bydd y gwaith hwn yn llywio polisi o ran y ffordd orau o gefnogi twf cynaliadwy'r gwahanol sectorau diwydiant mewn ffordd strategol a symlach”.

11. Gofynnwn i chi roi sicrwydd pellach na fydd sector pysgodfeydd Cymru yn wynebu unrhyw ostyngiad mewn cyllid o ganlyniad i Brexit.

Nodwn eich bod wedi gwrthod Casgliad 24 ar y sail bod Llywodraeth Cymru wedi cydymffurfio â'r gofynion sy'n ymwneud â'r weithdrefn Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Rydych yn nodi y gallai'r Pwyllgor fod wedi gofyn am ragor o wybodaeth ariannol yn ystod y broses graffu.

12. A allwch chi roi manylion am unrhyw waith yr ydych wedi'i wneud i asesu costau gweithredu darpariaethau Bil y DU?

13. A allwch chi roi manylion am eich asesiad diweddaraf o'r goblygiadau ariannol sy'n deillio o Fil y DU?

Rydym yn falch eich bod wedi derbyn y rhan fwyaf o awgrymiadau'r Pwyllgor ar gyfer diwygio Bil y DU.

14. Gofynnwn i chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am unrhyw gynnydd a wnaed wrth sicrhau cytundeb Llywodraeth y DU i ddiwygiadau mewn perthynas â'r gofynion a ganlyn:

- y gofyniad i adolygu'r amcanion pysgodfeydd (Casgliad 8);
- y gofyniad i'r awdurdodau polisi pysgodfeydd adrodd i'r ddeddfwrfa berthnasol ar y cynnydd a wnaed o ran gweithredu polisïau ac o ran cyflawni'r amcanion pysgodfeydd (Casgliad 10); ac
- y gofyniad i Weinidogion Cymru ymgynghori ar gynigion ar gyfer unrhyw gynllun cymorth ariannol a sefydlir yn y dyfodol o dan Atodlen 4 (Casgliad 21).

Deallwn nad yw'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i threfnu eto. Yn dibynnu ar eich ymateb i'r materion uchod a faint o amser fydd ar gael, efallai y byddwn am gyhoeddi adroddiad atodol i helpu i lywio'r drafodaeth ymhellach.



Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb cyn gynted â phosibl, ac erbyn **24 Ebrill** fan bellaf.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Mike Hedges". The signature is written in a cursive style.

Mike Hedges AC

Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig





Ein cyf/Our ref: LG/0374/19

Mike Hedges AC
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Mike.Hedges@cynulliad.cymru

17 Ebrill 2019

Annwl Mike,

**Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar y
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Pysgodfeydd – llythyr dilynol**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 5 Ebrill, yn dilyn ystyriaeth y Pwyllgor o ymateb Llywodraeth Cymru i'ch adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Pysgodfeydd y DU. Rwyf wedi nodi ymatebion i'ch cwestiynau isod.

Yr angen am ddeddfwriaeth a'r dull a fabwysiadwyd

1. Hoffem i chi fynd i'r afael â'r mater hwn yn eich ymateb i'r llythyr hwn. A allwch chi roi enghreifftiau o sut y cafodd rhanddeiliaid eu cynnwys wrth ddatblygu Bil y DU? Nodwch pwy oedd y rhanddeiliaid hynny a sut y cawsant eu cynnwys.

Bil gan Lywodraeth y DU yw hwn a chyhoeddodd Defra ei ymgynghoriad papur gwyn o dan y teitl *Sustainable fisheries for future generations* ar 4 Gorffennaf 2018, cyn cyflwyno'r Bil ym mis Hydref 2018. Mae'r crynodeb o'r ymatebion yn nodi bod 34,667 o ymatebion wedi dod i law.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 46
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roedd y rhain yn cynnwys:

- 34,440 o ymatebion gan ymgyrchoedd (yn cynnwys ymgyrchoedd gan Greenpeace, y Gymdeithas Cadwraeth Forol, Cymdeithas Cadwraeth Morfilod a Dolffiniaid a'r Ymddiriedolaeth Genweirio)
- 227 o ymatebion unigol

Ar lefel rhyng-lywodraeth, rydym yn parhau i ddatblygu'r fframwaith, sy'n pennu'r fframwaith lefel uchel a'r trefniadau ymgysylltu a gweithio rhwng llywodraethau.

Y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd, yn arbennig, yw'r cyfrwng allweddol i randdeiliaid ar gyfer llywio a siapio ein polisïau ar gyfer cyflawni amcanion y pysgodfeydd. Rydym yn gweithio ar ddull manwl a chynhwysol o ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ddatblygu'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd ar hyn o bryd a byddwn yn darparu gwybodaeth am hyn cyn gynted â phosibl.

2. A allwch chi roi eglurhad manylach o bwrpas ac effaith arfaethedig y pwerau gweithredol y tu hwnt i'r hyn sydd eisoes wedi'i gynnwys yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ac yn eich tystiolaeth i'r Pwyllgor? Dylai hyn wahaniaethu rhwng pwerau newydd a phwerau cyfredol.

Fel y gwyddoch, mae'r dyddiad pan fydd y DU yn ymadael â'r UE wedi'i ohirio tan fis Hydref 2019, oni cheir cytundeb cyn hynny. Yn ôl Llywodraeth y DU, nid yw'r Bil yn debygol o gael gwrandawriad yn y Senedd hyd nes y byddant wedi dod i gytundeb gydag Ewrop. Gallai hyn newid wrth gwrs. Mae'r Bil yn parhau i esblygu ac rwy'n ymrwymo i ddarparu rhagor o wybodaeth, ar yr adeg briodol am ddatblygiad y Bil drwy'r Senedd, gan sicrhau bod y Pwyllgor a'r Cynulliad yn derbyn y wybodaeth angenrheidiol i wneud eu penderfyniad ar gydsyniad.

Rwy'n disgwyl y bydd yna welliannau pellach i'r Bil, yn ymwneud â Chymru. Yn dilyn hyn, bydd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn cael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad i graffu arno.

Yn ogystal â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol, byddaf yn darparu papur fydd yn cwmpasu holl ddarpariaethau'r Bil a fydd yn egluro pwrpas ac effaith fwriedig y pwerau gweithredol yn y Bil yn fanylach.

3. A allwch chi egluro pa rai o'r pwerau penodol a ddarparwyd y gallai fod eu hangen yn y cyfnod yn syth ar ôl Brexit?

Rwy'n ailadrodd bod gennym gyfnod ansicr o'n blaenau. Byddai'n ddoeth sicrhau'r pwerau galluogi hyn yn awr er mwyn bod yn yr un sefyllfa â Gweinyddiaethau Pysgodfeydd eraill ac er mwyn i ni allu ymateb i'r sefyllfa sy'n datblygu, waeth a ydym angen y pwerau yn syth ar ôl gadael yr UE neu yn yr hirdymor. Pwerau trosiannol fydd y rhain. Bydd Bil Pysgodfeydd Cymru (unwaith y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi sicrhau'r estyniad i Gymhwysedd Deddfwriaethol y Cynulliad drwy Fil Pysgodfeydd y DU) yn gyfle i fireinio pwerau i gyd-fynd â'r heriau rheoli pysgodfeydd yn well, a ddaw yn gliriach ar ôl i ni adael yr UE. Mewn perthynas â'r angen i ddefnyddio'r pwerau yn atodlenni 4, 6 a 7 yn syth ar ôl Brexit yn arbennig.

Atodlen 4 - Efallai y bydd hi'n bosibl cyflwyno cynllun ar ôl i ni adael yr UE, yn dibynnu ar amserlenni ac amgylchiadau. Mae fy swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda Defra a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill i ystyried cynlluniau a mecanweithiau cyllido ar gyfer y diwydiant pysgota wrth symud ymlaen i'r dyfodol.

Atodlen 6 – Mae'r pŵer llunio Offerynnau Statudol hwn yn angenrheidiol o ystyried yr ansicrwydd y byddwn ni'n ei wynebu wrth i ni adael yr Undeb Ewropeaidd. Efallai y bydd
Tudalen y pecyn 47

angen cyflwyno is-ddeddfwriaeth, dan amgylchiadau na ellir eu rhagweld. Byddai'n annoeth cyfyngu ein hunain (a rhoi ein hunain o dan anfantais o gymharu â gweinyddiaethau pysgodfeydd eraill y DU) drwy beidio â chynnwys hyn ym Mil y DU a'i ddarparu cyn gynted â phosibl.

Atodlen 7 – Bydd y pwerau hyn yn rhan o'n pecyn cymorth ar gyfer rheoli pysgodfeydd a gellid ei ddefnyddio'n syth neu'n fuan wedyn yn dibynnu ar y pwysau sy'n codi. Bydd y pwerau hyn yn sicrhau bod y sefyllfa'n parhau i weithio'n gyfochrog yng ngwahanol Weinyddiaethau Pysgodfeydd y DU hefyd. Fel arall, gellid cael sefyllfa lle mae Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn gallu cymryd camau gweithredu i warchod ardal yn y môr (er enghraifft) ond nad oes gan Weinidogion Cymru y pŵer galluogi angenrheidiol hyd nes y cyflwynir Bil Pysgodfeydd i Gymru. Rwy'n credu ei bod hi'n annoeth mentro fel hyn pan mae Bil Pysgodfeydd y DU yn gyfrwng deddfwriaethol priodol i ddarparu'r pwerau angenrheidiol. Rwyf nawr yn ceisio cael gwelliant fel y gall Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pwerau yn adran newydd 134A a B o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (a fewnosodwyd gan Atodlen 7 i Ddeddf Pysgodfeydd y DU) mewn sefyllfaoedd o argyfwng (gan ddileu'r gofyniad i ymgynghori, oni bai bod gwir angen). Mae'r pwerau hyn yn bwysig er mwyn gallu gweithredu'n gyflym i reoli pysgodfeydd Cymru a Pharth Cymru'n gynaliadwy.

4. A allwch chi egluro pryd y byddwch mewn sefyllfa i roi gwybod i ni beth yw eich bwriad o ran cyflwyno Bil ar gyfer Cymru?

Bydd y Prif Weinidog yn cyflwyno ei ddatganiad blynyddol ar y rhaglen ddeddfwriaethol cyn toriad yr haf. Fel y dywedodd yn ei lythyr atoch ar 22 Mawrth, mae'n amlwg y bydd angen i ni osod darpariaethau ar lyfr statud Cymru a'r bwriad yw i Fil Pysgodfeydd y DU fod yn drosiannol hyd nes i ni ddeall yn well pa bwerau fydd eu hangen ar ôl gadael yr UE ac, ar y pwynt hwn, gellir cyflwyno unrhyw bwerau ychwanegol drwy Fil Pysgodfeydd Cymru (unwaith i ni gael yr estyniad i Gymhwysedd Deddfwriaethol y Cynulliad drwy Fil Pysgodfeydd y DU). Ni fydd y Cynlluniad yn gorfod ildio unrhyw bwerau yn sgil Bil Pysgodfeydd y DU. Yn wir, bydd Bil Pysgodfeydd y DU yn arwain at ymestyn Cymhwysedd Deddfwriaethol y Cynulliad mewn perthynas â'r pwnc hwn. Yna, bydd cylch gwaith unrhyw Fil Pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol yn cynnwys y gallu i addasu unrhyw o'r pwerau sydd wedi'u cynnwys ym Mil Pysgodfeydd y DU a darparu pwerau newydd o'r fath fel bo angen. Ar hyn o bryd, yn sgil yr amseriad a'r cyfyngiadau cyfredol ar Gymhwysedd Deddfwriaethol y Cynulliad yn y maes hwn, rydym yn ddibynnol ar nifer o ddarpariaethau Bil Pysgodfeydd y DU (ymestyn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn arbennig). Fodd bynnag, mae'n anodd ymrwymo i amserlen ar gyfer Bil Pysgodfeydd i Gymru hyd nes y bydd y Bil wedi pasio drwy'r Senedd ac i'r sefyllfa sy'n datblygu ynghylch beth fydd yn digwydd ar ôl i'r DU adael yr UE ddod yn fwy clir.

Mynediad i bysgodfeydd Prydain

5. A allwch chi ddarparu manylion pellach, y tu hwnt i'r rhai a nodir uchod, am sut a phryd y bydd y gofynion ychwanegol hyn yn cael eu pennu?

Ar ôl gadael yr EU ni fyddwn wedi'n rhwymo gan y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, a bydd y system drwyddedu newydd ar gyfer llongau tramor yn cael ei lansio. Y bwriad ar hyn o bryd yw i'r Awdurdod Dyroddi Sengl weithredu ar ran Gweinidogion Cymru i drwyddedu llongau pysgota tramor ac i gael caniatâd i unrhyw long o Gymru sydd am bysgota yn nyfroedd Ewrop. Bydd y drwydded yn cyfeirio at amodau trwyddedu y pedair weinyddiaeth pysgodfeydd. Bydd yr amodau trwyddedu ar gyfer dyfroedd Cymru, sy'n pennu'r rheolau ar gyfer sut y bydd llongau sy'n pysgota yn ein moroedd yn gweithredu, yn cael eu pennu a'u rheoli gan Weinidogion Cymru. Bydd Gweinidogion Cymru'n gyfrifol am bob penderfyniad trwyddedu a wneir mewn perthynas â llongau perthnasol. Mae swyddogion Llywodraeth

Cymru wrthi'n gweithio gyda swyddogion o Weinyddiaethau Pysgodfeydd Datganoledig eraill a'r Sefydliad Rheoli Morol (y bwriedir iddo fod y sefydliad sy'n cynnal yr Awdurdod Dyroddi Sengl) er mwyn datblygu unrhyw ofynion ychwanegol a allai fod yn angenrheidiol. Y bwriad yw darparu'r amodau trwyddedu angenrheidiol ar wefan Llywodraeth Cymru, a bydd y rhain yn cael eu diweddarau'n rheolaidd.

Cyfleoedd pysgota a chyfran o'r cwota

6. A allwch chi roi manylion i'r Pwyllgor am unrhyw ymgynghoriad yr ydych wedi'i gynnal â rhanddeiliaid ar y darpariaethau hyn?

Bil gan Lywodraeth y DU yw hwn ac fe gynhaliwyd ymgynghoriad â rhanddeiliaid cyn cyflwyno darpariaethau'r Bil hwn.

Barn Llywodraeth Cymru ar y gyfran o'r cwota yw bod ein pysgodfeydd bach a bach eu heffaith wedi bod o dan anfantais am lawer rhy hir. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn glir; mae angen i ni sicrhau bod cymunedau arfordirol yn gweld gwerth yn y pysgod oddi ar eu glannau nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Yn ei thrafodaethau â'r UE yn y dyfodol, mae cyfle gan y DU i ennill cyfran fwy o bysgod y gellid ei defnyddio i adfer y cydbwysedd o safbwynt cyfleoedd pysgota fel y gall fflydoedd arfordirol bach fod yn fwy cynaliadwy a buddsoddiadwy.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn galw am gyfran decach o'r cyfleoedd pysgota gan Lywodraeth y DU gydol y prosesau hyn. Rydym wedi datgan yn glir ein bod ni'n ystyried bod yna anghydbwysedd sylfaenol yng nghwota'r DU a byddwn yn parhau i alw ar Lywodraeth y DU i fynd i'r afael â'r mater hwn.

7. Hoffem i chi rannu'r ohebiaeth honno, ac unrhyw ymatebion a gafwyd, â'r Pwyllgor i'n galluogi i ddeall yn well beth y byddech chi'n ei ystyried yn "setliad gwell" ar gyfer pysgodfeydd Cymru.

8. Hoffem i chi esbonio beth fydd sicrhau bod y dull o ran dyrannu cwota yn gyson â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei olygu'n ymarferol.

9. Hoffem i chi rannu â ni unrhyw ohebiaeth ddiweddar â Llywodraeth y DU mewn perthynas â chyfran Cymru o'r cwota, ac unrhyw ymatebion a gafwyd.

10. Hoffem gadarnhau eich bod yn mynd ati'n weithredol gyda Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i roi'r gorau i ddefnyddio daliadau hanesyddol fel y prif ffactor wrth benderfynu ynghylch dyrannau'r cwota.

Rwy'n llwyr dderbyn yr angen i unioni'r annhegwch sylfaenol yn nyraniad y cwota a byddaf yn parhau i alw am hyn. Mae trafodaethau wedi dechrau gyda gweinyddiaethau pysgodfeydd eraill y DU a gallaf gadarnhau fy mod i'n ymrwymedig i ystyried pob opsiwn gyda Llywodraeth y DU a byddaf yn ystyried yn ofalus pa opsiwn sydd fwyaf addas i gefnogi'r diwydiant pysgota yng Nghymru gan gefnogi cynaliadwyedd ein stociau yr un pryd.

Mae cysoni â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â deall y darlun cyfan – cael y wyddoniaeth a'r dystiolaeth i wybod pa adnoddau a stociau sydd ar gael i ni, pa rai sydd mewn perygl, pa rai sydd wedi'u hadfer a pha rai y gellir eu defnyddio ymhellach. Mae hefyd yn ymwneud â deall yr elfen ddynol, pa effaith mae gwahanol bolisiau'n ei chael ar gymunedau pysgota a chymunedau arfordirol yn gyffredinol. Mae'n ymwneud â defnyddio'r holl wybodaeth hon i lywio polisiau a phenderfyniadau'n well.

Rwyf wedi amgáu gohebiaeth rhyngof fi a Michael Gove AS. Ni allaf rannu'r holl ohebiaeth ynghylch y mater hwn oherwydd y marciau sensitifrwydd. Fodd bynnag, o dan gwestiwn 6 rwyf wedi nodi beth yw setliad gwell a chyfran annheg o gwota yn fy marn i.

Rydym yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu Strategaeth Tystiolaeth Forol ar gyfer Cymru a fydd yn:

- darparu fframwaith i gefnogi'r gwaith o gasglu tystiolaeth forol ar gyfer datblygu, gweithredu, llywio a gwerthuso polisïau a rhaglenni morol
- cefnogi ymgysylltu a dealltwriaeth ehangach am risgiau a chyfleoedd moroedd Cymru
- diffinio blaenoriaethau tystiolaeth forol strategol lefel uchel ar gyfer Cymru a llywio'r gwaith o weithredu, monitro ac adolygu camau gweithredu i gyflawni'r blaenoriaethau hynny
- cydweithio a chydweithredu'n well ynghylch gwybodaeth, adnoddau a gohebiaeth wyddonol
- helpu i gysoni a datblygu capasiti tystiolaeth forol Cymru a hyrwyddo arloesedd

Pwerau o ran cymorth ariannol a chyllid yn y dyfodol

11. Gofynnwn i chi roi sicrwydd pellach na fydd sector pysgodfeydd Cymru yn wynebu unrhyw ostyngiad mewn cyllid o ganlyniad i Brexit.

Rwy'n disgwyl i Lywodraeth y DU anrhydeddu ei hymrwymiad i sicrhau bod holl raglenni ariannu cyfredol yr UE yn cael eu cwblhau'n llawn ar ôl i ni adael yr UE. O ran yr holl drefniadau ariannu ar ôl i ni adael yr UE, mae Llywodraeth Cymru wedi datgan yn glir na ddylai Cymru dderbyn yr un geiniog yn llai o ganlyniad i adael yr UE.

12. A allwch chi roi manylion am unrhyw waith yr ydych wedi'i wneud i asesu costau gweithredu darpariaethau Bil y DU?

13. A allwch chi roi manylion am eich asesiad diweddaraf a'r goblygiadau ariannol sy'n deillio o Fil y DU?

Mae gwaith ar droed i asesu costau llawn y Bil. Nid yw'r sefyllfa derfynol yn hysbys eto o ystyried natur esblygol y Bil ac effaith oedi pellach gyda gadael yr UE. Fodd bynnag, rwy'n disgwyl i'r Bil fod ag ychydig o oblygiadau ariannol uniongyrchol yn unig ond mae'n debygol y bydd yna gostau ychwanegol o ran darparu swyddogaethau newydd yn yr hirdymor. Byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor cyn y ddadl i nodi goblygiadau ariannol y Bil.

14. Gofynnwn i chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am unrhyw gynnydd a wnaed i sicrhau cytundeb Llywodraeth y DU i ddiwygiadau mewn perthynas â'r gofynion a ganlyn:

– y gofyniad i adolygu'r amcanion pysgodfeydd (Casgliad 8);

– y gofyniad i'r awdurdodau polisi pysgodfeydd adrodd i'r ddeddfwrfa berthnasol ar y cynnydd a wnaed o ran gweithredu polisïau ac o ran cyflawni'r amcanion pysgodfeydd (Casgliad 10);

– y gofyniad i Weinidogion Cymru ymgynghori ar gyfer unrhyw gynllun cymorth ariannol a sefydlir yn y dyfodol o dan Atodlen 4 (Casgliad 21).

Casgliad 8 – Mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n parhau i drafod hyn gyda Defra a Gweinyddiaethau Pysgodfeydd Datganoledig eraill, ac mae hyn yn cael ei ddatblygu o fewn cylch gwaith Gweithgor y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd.

Cofion,

A handwritten signature in cursive script that reads "Lesley".

Lesley Griffiths AC/AM

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs



Department
for Environment
Food & Rural Affairs

The Rt Hon Michael Gove MP
From the Secretary of State for Environment, Food
and Rural Affairs

Seacole Building
2 Marsham Street
London SW1P 4DF

T 03459 335577
defra.helpline@defra.gsi.gov.uk
www.gov.uk/defra

Lesley Griffiths AM
Cabinet Secretary for Energy, Planning
and Rural Affairs
Welsh Government
Cardiff
CF99 1NA

9 December 2018

Dear Lesley,

I am writing to let you know that tomorrow the Government will announce that it is tabling an amendment to the Fisheries Bill and committing to extra funding for the fishing industry.

On Monday the Government will table an amendment which will enshrine its commitment to secure a fairer share of fishing opportunities for UK fishermen. The amendment would place a legal obligation on the government, when negotiating a fisheries agreement with the EU, to pursue a fairer share of fishing opportunities than the UK currently receives under the Common Fisheries Policy (CFP). This will give legal weight to our commitment to take back control of our waters and to secure a fairer share of fishing opportunities for the whole of the UK fishing industry.

I will also announce that the Government has committed £37.2 million of extra funding to boost the UK fishing industry during the Implementation Period. This will equate to around £2.4 million for Wales. It is in addition to the existing European Maritime and Fisheries Fund, which at €243m over seven years is, as you know, broadly equivalent to £32m a year. The funding will be delivered through the existing EMFF framework, so it will be provided to the sector using the current EMFF delivery mechanisms. The new funding will boost the industry as we become an independent coastal state, preparing the UK to receive a greater share of future fishing opportunities.

In addition to this I will announce that the Government will put in place new, domestic, long-term arrangements to support the UK's fishing industry from 2021, through the creation of four new schemes comparable to EMFF to deliver funding for each nation of the UK. The Welsh Government will lead on the scheme for Wales and details will be agreed at the 2019 Spending Review.

With every good wish,

Michael Gove

Lesley Griffiths AC/AM
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LG/02464/18

Rt Hon Michael Gove MP
Secretary of State
Department for Environment, Food & Rural Affairs
Nobel House
17 Smith Square
London
SW1P 3JR
ParliamentandCabinetTeam@defra.gsi.gov.uk

8

January 2019

Dear Michael

Thank you for your letter of 9 December regarding an amendment to the UK Fisheries Bill and commitments for further funding for the industry.

Given the close working between our officials on finance in relation to our exit from the EU, I was very disappointed this was the first I have heard of the successor to the European Maritime and Fisheries Fund.

Any successor scheme must reflect the needs of the distinct fishing industry in Wales. You also recognise Wales will need to develop its own scheme to meet the unique demands of our industry. As a result, I expect to be fully involved in the Spending Review to enable us to put forward a robust case for a fair budget for Wales.

Whilst I welcome the further £2.4million funding, I fear this money will do little to aid the fishing industry in Wales, which, as a primarily small scale shellfish based industry, is dependent on continued unfettered access to EU markets. Securing continued access to the European market must be a priority in the exit negotiations. I am also concerned this funding is to be delivered through EMFF, a scheme which may not best align to our needs as we exit the EU.

In relation to the proposed amendment to the Fisheries Bill, as we set out in 'Securing Wales' Future', we want to see the Welsh fishing industry receive its fair share of fishing

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 53

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

opportunities in the future. Therefore, any increase in the UKs share must be used to address these historic imbalances.

Regards
Lesley

Lesley Griffiths AC/AM

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Lesley Griffiths AC
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

12 Mawrth 2019

Annwyl Lesley

Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yng Nghymru

Fel y gwyddoch, ym mis Awst 2017, cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad, *Y Llanw'n troi? Adroddiad ar yr ymchwiliad i ddull Llywodraeth Cymru o reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig.*

Ers cyhoeddi ein hadroddiad, cafwyd nifer o ddatblygiadau yn y maes polisi hwn, gan gynnwys cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru, Fframwaith Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig Cymru 2018-2023 a Chynllun Gweithredu Cymru 2018-19. Yn fwy diweddar, rydych chi wedi adrodd i'r Cynulliad ar Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yn unol â gofynion Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno y byddai nawr yn amser priodol i gynnal gwaith dilynol ar reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig. Er mwyn llywio'r gwaith hwn, hoffem gael y wybodaeth ddiweddaraf gennych am y cynnydd sydd wedi ei wneud o ran gweithredu'r argymhellion yn ein hadroddiad yn 2017. Fel rhan o'ch ymateb, hoffem i chi fynd i'r afael â'r cwestiynau penodol sydd i'w gweld yn **Atodiad 1** i'r llythyr hwn.

Hoffem hefyd gael diweddariad gennych ar y cynnydd o ran cyflawni pob un o'r 21 cam gweithredu yng Nghynllun Gweithredu Rheoli Rhwydwaith



Ardaloedd Morol Gwarchoddedig 2018-19. Os na chadwyd at yr amserlenni ar gyfer cyflawni'r camau gweithredu, dylech gynnwys esboniad ynghyd ag unrhyw ddiwygiadau dilynol i'r amserlenni hyn.

Yn olaf, byddai'n ddefnyddiol pe gallech gadarnhau a fydd Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i fabwysiadu'n ffurfiol Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru ('y Cynllun') yn ddiweddarach yn y gwanwyn, gyda golwg ar gwblhau a gweithredu'r Cynllun yn gynnar yn yr haf, yn unol â'r llinell amser y gwnaethoch ei chyhoeddi.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn **12 Ebrill** fan bellaf.

Yn gywir,



Mike Hedges AC

Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig



1. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sydd wedi deillio o waith Llywodraeth Cymru i ddatblygu dull cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth o fonitro a goruchwyllo safleoedd (yr oedd disgwyl iddo ddod i ben yn haf 2018)? Sut y mae deilliannau'r gwaith hwn wedi llywio dull Llywodraeth Cymru o fonitro safleoedd?
2. Ers cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor ym mis Awst 2017, pa gynnydd sydd wedi ei wneud i ganfod unrhyw fylchau o ran creu rhwydwaith ecolegol cydlynol o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yn nyfroedd Cymru, a mynd i'r afael â'r bylchau hynny? A oes unrhyw Ardaloedd Morol Gwarchoddedig newydd wedi cael eu pennu neu eu dynodi i fynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd yn yr asesiad yn 2014 a gynhaliwyd gan y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur a Cyfoeth Naturiol Cymru? Pa amserlenni ydych chi gweithio tuag atynt i gwblhau'r gwaith hwn?
3. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datblygu nifer o adroddiadau cyflwr dangosol nodweddion ar safleoedd, gyda chyfran fawr o nodweddion safleoedd yn ymddangos i fod mewn cyflwr anffafriol neu anhysbys. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd o ganlyniad i'r asesiad hwn? Pa gynnydd sydd wedi ei wneud i ddatblygu proses barhaol a chynaliadwy ar gyfer adrodd ar gyflwr nodweddion safleoedd y gellir ei hailadrodd yn rheolaidd?
4. A allwch chi roi manylion unrhyw waith y mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ei wneud i asesu'r angen i ddynodi Ardaloedd Morol Gwarchoddedig ar gyfer rhywogaethau symudol iawn?
5. Pa waith yr ydych chi wedi'i wneud, ers cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor, i asesu effaith Brexit ar Ardaloedd Morol Gwarchoddedig Cymru? Gofynnir ichi gynnwys manylion unrhyw waith paratoi i liniaru unrhyw risgiau yr ydych chi wedi'u canfod.
6. Pa gamau penodol yr ydych chi wedi'u cymryd i sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i gynnal mesurau gwarchod amgylcheddol morol ar ôl Brexit?



7. Pa gynnydd sydd wedi'i wneud rhwng Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig o ran cytuno ar fecanwaith i barhau i reoli ardaloedd morol trawsffiniol, ar ôl Brexit?
8. Pa drefniadau fydd ar waith ar ôl Brexit i asesu ac yna adrodd ar gyflwr a statws safleoedd Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru, y tu hwnt i'r gofyniad adrodd chwe blynedd yn Neddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009?
9. Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynghylch trefniadau ariannu ar gyfer gweithgareddau rheoli morol ar ôl Brexit? Beth oedd canlyniad y trafodaethau hynny?
10. A allwch chi ddarparu manylion ynghylch unrhyw waith ar Ardaloedd Morol Gwarchodedig sy'n cael ei ariannu ar hyn o bryd gan gronfeydd yr UE, megis Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop a LIFE-Nature, a fyddai'n wynebu risg pe na bai cyllid tebyg ar gael ar ôl Brexit?
11. A allwch chi gadarnhau a oes arian ychwanegol ar gael ar gyfer gwaith ar Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn dilyn ymestyn swyddogaethau gweithredol Gweinidogion Cymru ar gyfer cadwraeth forol i ranbarth môr mawr Cymru ym mis Ebrill 2018? Os felly, faint o arian? Os na, beth yw'r rhesymau dros hyn?





Ein cyf: MA-P-LG-1135-19 Doc 1

Mike Hedges AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

17 Ebrill 2019

Annwyl Mike

Diolch am eich llythyr dyddiedig 12 Mawrth, ynghylch rheoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yng Nghymru.

Yn eich llythyr rydych yn gofyn am ddiweddariad ar gynnydd Llywodraeth Cymru o ran gweithredu'r 12 argymhellid yn adroddiad y Pwyllgor "Y Llanw'n troi? Adroddiad ar yr ymchwiliad i ddull Llywodraeth Cymru o reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig". Rydych yn gofyn 11 cwestiwn arall ar faterion sy'n ymwneud â rheoli ardaloedd morol gwarchoddedig, rhai ohonynt yn adeiladu ar argymhellion y Pwyllgor.

Rydych yn gofyn hefyd am ddiweddariad ar gyflawni pob un o'r 21 o gamau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yng Nghymru 2018-2019. Mae fy adran wrthi'n gweithio gyda Grŵp Llywio Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig a buddiannau morol eraill, yn cynnwys Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol, i baratoi Adroddiad Blynyddol Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig ar gyfer 2018-2019. Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn darparu cynnydd ar gyflawni pob un o'r 21 o gamau gweithredu, a gwybodaeth am gamau gweithredu rheoli MPA eraill sy'n cael eu cyflawni ledled Cymru. Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyhoeddi yn haf 2019, a byddaf yn sicrhau bod y Pwyllgor yn derbyn copi pan fydd ar gael. Yn y cyfamser, rwyf wedi darparu diweddariad interim ar bob un o'r 21 o gamau gweithredu yng Nghynllun Gweithredu 2018-2019.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ran mabwysiadu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, rwy'n ymrwymedig i ddatblygu cynllunio morol ar gyfer Cymru, a bydd mabwysiadu'r Cynllun hwn yn gam pwysig ymlaen. Ar 13 Mehefin 2018 ysgrifennais at y Pwyllgor yn nodi ymateb Llywodraeth i argymhellion y Pwyllgor yn dilyn eich ystyriaeth o'r Cynllun drafft. Ers hynny, mae fy adran wedi gweithio'n agos ag ystod eang o randdeiliaid yn ogystal â swyddogion polisi morol Cymru a'r DU i greu testun terfynol y cynllun a datblygu'n dull o gefnogi'r gwaith o'i weithredu. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- Llawer o gyfarfodydd a gweithdai yn ystyried polisi'r cynllun mewn perthynas â thwf glas, Ardaloedd Adnoddau Strategol, polisi cefnogi'r sector morol, Rheoli Adnoddau Naturiol Morol yn Gynaliadwy a llesiant cenedlaethau'r dyfodol, gwneud penderfyniadau economaidd-gymdeithasol, ailwampio Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru i gefnogi hygyrchedd i ddefnyddwyr ac ystyriaethau trawsffiniol;
- Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried opsiynau polisi môr-lynnoedd a chwblhau Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Rheoliad Cynefinoedd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru;
- Sefydlu grŵp awdurdodau cyhoeddus i ystyried cynigion gweithredu a chynghori ar benderfyniadau i gefnogi'r gwaith o weithredu'r cynllun;
- Datblygu astudiaethau achos i helpu i rannu arferion da wrth weithredu'r cynllun;
- Ymgysylltu â'r Sefydliad Rheoli Morol a rhanddeiliaid ehangach ar ystyriaethau trawsffiniol;
- Datblygu cynigion ar gyfer fframwaith monitro ac adrodd.

Er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud, mae gwaith Brexit wedi cael blaenoriaeth ar draws fy mhortffolio a bydd hyn yn arwain yn anochel at rai newidiadau i gerrig milltir gwaith arall yn cynnwys cynllunio morol. Ymhellach, gan fod y cynllun yn cynnwys cyfeiriad at swyddogaethau a ddargedwir, mae angen cymeradwyaeth gan Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig cyn mabwysiadu. Nid yw'n amlwg sut y gallai Brexit effeithio ar yr amserlen hon ar hyn o bryd.

Mae diweddariad ar gynnydd pob un o'r argymhellion yn Atodiad 1 y llythyr hwn. Mae fy ymateb i'r 11 cwestiwn ychwanegol yn Atodiad 2. Yn olaf, mae diweddariad interim ar gynnydd ar gyfer 21 cam gweithredu Cynllun Gweithredu 2018-2019 yn Atodiad 3 y llythyr.

Cofion,



Lesley Griffiths AC/AM

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

DIWEDDARIAD AR GYNNYDD GWEITHREDU'R ARGYMHELLION

Argymhelliad 1

Er mwyn i Gymru wireddu manteision ei MPAs, rhaid rheoli'r safleoedd yn effeithiol. Rhaid i Lywodraeth Cymru gynnig arweiniad yn hyn o beth drwy ddatblygu, yn ddi-oed, strategaeth MPAs, a sicrhau bod pob awdurdod rheoli, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yn ymwneud yn frwd â rheoli MPAs ac yn cyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn.

Ym mis Medi 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fframwaith Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig Cymru 2018-2023 a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yng Nghymru 2018-2019. Paratowyd y ddwy ddogfen gan Grŵp Llywio Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig sy'n cynnwys y prif awdurdodau rheoli sy'n gweithredu yng Nghymru.

Mae Fframwaith Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig Cymru 2018-2023 yn cyflwyno strwythur, am y tro cyntaf mewn un lle, ar gyfer gwella rheolaeth a chyflwr y rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yng Nghymru am y 5 mlynedd nesaf. Mae'r Fframwaith yn cydnabod bod rheoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yn effeithiol yn sicrhau'r cyfraniad gorau posibl gan rwydwaith yr Ardaloedd Morol Gwarchoddedig at gyflwr a chydnerthedd ecosystemau morol a diwydiannau morol cynaliadwy. Mae'n rhoi ffocws i bob Awdurdod Rheoli hefyd i gynnal a gwella trefniadau rheoli'r rhwydwaith.

Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yng Nghymru 2018-2019 yn cyd-fynd â'r Fframwaith ac yn rhoi manylion am y camau gweithredu a nodwyd gan Grŵp Llywio Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig fel blaenoriaeth i wella rheolaeth, ac felly cyflwr, y rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yng Nghymru. Mae Grŵp Llywio Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yn adolygu cynnydd o ran cyflawni'r camau gweithredu. Mae wedi cytuno i gyhoeddi Adroddiad Blynyddol hefyd a fydd yn rhoi manylion ar y cynnydd a wnaed gyda phob cam gweithredu dros y 12 mis blaenorol.

Argymhelliad 2

Ni ellir rheoli MPAs yn effeithiol heb y lefel briodol o adnoddau, gan gynnwys cyllid a staffio. Rhaid i Lywodraeth Cymru:

- **sicrhau bod ganddi ddigon o staff i gyflawni ei chyfrifoldebau ym maes cadwraeth y môr;**
- **cyflwyno cynigion ar gyfer cyllido dull gweithredu sy'n seiliedig ar ardaloedd, a sicrhau bod gan bob ardal reoli ei swyddog dynodedig ei hun; a**
- **sicrhau bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddigon o adnoddau i gyflawni ei gyfrifoldebau o ran rheoli MPAs a gwella Rhwydwaith Natura 2000 Cymru.**

Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Mae staff Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn rhan o waith rheoli morol cynaliadwy, fel yr amlinellwyd yn fy ymateb gwreiddiol. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydnabod bod yr angen i flaenoriaethu gwaith i adael yr UE a chynllunio ar gyfer gadael heb gytundeb yn arbennig wedi effeithio ar adnoddau staffio ar draws fy mhortffolio ac nid yw'r maes hwn yn eithriad.

Nid yw barn Grŵp Llywio Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig wedi newid o ran dulliau rheoli seiliedig ar ardaloedd. Mae llawer o awdurdodau rheoli eisoes yn cydweithio drwy Grwpiau Awdurdod Perthnasol i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol a rhannu arferion gorau. Rydym wedi darparu £130,000 i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yng Nghymru 2018-2019. Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2019-2020 yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, a byddwn yn edrych am gyfleoedd i ddarparu cymorth ariannol i gyflawni ei gamau gweithredu, lle bo angen.

Rwy'n parhau i gael cyfarfodydd rheolaidd â Chadeirydd a Phrif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru i drafod unrhyw feysydd sy'n destun pryder.

Argymhelliad 3

Rhaid i Lywodraeth Cymru ymgysylltu'n well â rhanddeiliaid a'r cyhoedd a gweithredu mewn ffordd fwy tryloyw ac effeithlon, gan gynnwys cyhoeddi gwybodaeth am weithgareddau'r grwpiau arbenigol y mae'n eu harwain. Dylai rhanddeiliaid gael ymwneud yn llawn â datblygu'r strategaeth MPAs. Rhaid i Lywodraeth Cymru gryfhau ymwybyddiaeth o MPAs ymhlith y cyhoedd.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn.

Ers i'r Pwyllgor gyhoeddi ei adroddiad ym mis Awst 2017 rydym wedi cynyddu ein gwaith ymgysylltu â'n rhanddeiliaid yn sylweddol.

Fel rhan o'n hymgyrch barhaus i wella tryloywder rydym yn cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd y grwpiau canlynol yn rheolaidd ar ein gwefan:

- Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol;
- Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru;
- Grŵp Llywio Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig;
- Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol.

Rydym yn cyhoeddi cylchlythyr Cynllunio Morol hefyd, sydd â 980 o danysgrifwyr ar hyn o bryd.

Gwahoddwyd sylwadau gan Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol wrth ddatblygu Fframwaith Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig Cymru 2018-2023 a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yng Nghymru 2018-2019. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod hon yn broses sy'n datblygu ac felly rydym yn barod i dderbyn awgrymiadau bob amser ar sut y gallwn wella'n gwaith ymgysylltu a sicrhau mwy o fewnbwn gan

fuddiannau morol. Byddwn yn trafod y ffordd orau o gyflawni hyn yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Cynghori a Gweithredu ym mis Mai.

Ar ôl cyhoeddi'r Fframwaith a'r Cynllun Gweithredu ysgrifennais at yr Awdurdodau Rheoli eto, i dynnu sylw at y ddwy ddogfen a'u hatgoffa am eu cyfrifoldebau statudol ar gyfer rheoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig.

Fel rhan o'n gwaith o baratoi ar gyfer gadael yr UE rydym yn darparu cylchlythyr rheolaidd i randdeiliaid ar Bysgodfeydd a Brexit. Mae hyn yn sicrhau bod rhanddeiliaid yn y diwydiant pysgota'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau, ac unrhyw brosesau newydd sydd ar waith ac yn cael eu cyfeirio at ffynonellau cymorth ychwanegol. Rydym wedi cyhoeddi wyth cylchlythyr hyd yn hyn. Mae'r rhain wedi cael croeso cynnes, ac mae gennym dros 600 o danysgrifwyr hyd yma.

Yn ogystal â'r grwpiau rydym ni'n eu trefnu, mae fy swyddogion yn mynychu llawer o gyfarfodydd a grwpiau rhanddeiliaid i sicrhau ein bod ni'n ymgysylltu'n uniongyrchol â'n rhanddeiliaid.

Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth orfodi sy'n seiliedig ar risgiau ac sy'n mynd i'r afael â'r holl bwysau sydd ar MPAs, gan gynnwys ansawdd dŵr, sbwriel, pwysau yn sgil gweithgareddau hamdden; pysgodfeydd a chasglu adnoddau morol sydd heb eu rheoleiddio; a dylai symud yn gyflym i roi camau rheoli ar waith yn yr MPAs y gwyddys eu bod dan fygythiad.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Ers i'r Pwyllgor gyhoeddi'r adroddiad hwn rydym wedi cwblhau 36 o achosion gorfodi. Cyflwynwyd yr achosion hyn am nifer o resymau yn amrywio o bysgota mewn ardaloedd caeedig, cam-adrodd am ddalfeydd a methiant i gyflwyno nodiadau gwerthiant. O'r achosion hyn, erlynwyd 29 yn llwyddiannus yn y llys gyda'r gweddill yn derbyn llythyrau cynghori neu rybuddion swyddogol. Adeg ysgrifennu hyn rydym yn ymchwilio i 14 trosedd honedig arall.

Yn ddiweddar, rydym wedi cael tri Chwch Patrolio Pysgodfeydd pwrpasol newydd i gryfhau'n gallu gorfodi, a fydd yn ein galluogi i batrolio'r 32,000km² o ddŵr ym Mharth Cymru yn well. I gefnogi'r cynnydd hwn mewn capasiti rydym wedi recriwtio saith aelod criw newydd i ddarparu mwy o ddyddiau ar y môr. Adlewyrchir hyn gan y ffaith fod y cychod wedi patrolio 33 o weithiau yn barod yn ystod tri mis cyntaf 2019, o gymharu â 10 gwaith yn ystod 2018 i gyd. Mae ein criw newydd yn cael hyfforddiant hanfodol ar y funud, ac ar ben ffordd i fod yn Swyddogion Gorfodi Morol â gwarant.

Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yng Nghymru 2018-2019 yn cynnwys camau gweithredu sy'n mynd i'r afael â'r pwysau a nodir yn yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad 5

Mae sicrhau bod data, tystiolaeth ac ymchwil ar gael yn elfen ganolog o ddatblygu a rheoli polisi MPAs. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu partneriaeth gwyddor môr yng Nghymru i ddwyn diwydiant, academia a rhanddeiliaid ynghyd. Rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd sicrhau bod ganddi ddata ac ymchwil effeithiol ar waith i reoli MPAs, gan gynnwys gwaith monitro a gwyliadwriaeth.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Bydd ein Strategaeth Tystiolaeth Forol, sy'n cael ei datblygu ar y cyd â Cyfoeth Naturiol Cymru, yn cael ei chyhoeddi yn Haf 2019. Bydd yn:

- darparu fframwaith i gefnogi casglu tystiolaeth forol ar gyfer datblygu, gweithredu a gwerthuso polisiâu a rhaglenni morol;
- cefnogi ymgysylltu a dealltwriaeth ehangach am risgiau a chyfleoedd ym moroedd Cymru;
- diffinio blaenoriaethau tystiolaeth morol strategol lefel uchel ar gyfer Cymru - rhai Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i ddechrau - ac arwain y gwaith o weithredu, monitro ac adolygu'r camau gweithredu i gyflawni'r blaenoriaethau hynny;
- gwella cydweithio a chydgyssylltu mewn perthynas â gwybodaeth, adnoddau a chyfathrebu gwyddonol; a
- helpu i gysoni a datblygu capasiti tystiolaeth morol Cymru a hyrwyddo arloesedd.

Rydym yn datblygu Cynllun Tystiolaeth Pysgodfeydd gyda chydweithwyr yn Cefas hefyd, a fydd yn darparu llinell sylfaen o dystiolaeth gyfredol a blaenoriaethau amlinellol ar gyfer 2019-2020 ymlaen.

Argymhelliad 6

Wrth ddynodi MPAs yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru nodi'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer y gwaith rheoli, monitro, goruchwyllo a gorfodi y bydd gofyn ei wneud ar safle(oedd) a sut y darperir adnoddau o'r fath.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i ddefnyddio'r dull hwn wrth nodi a dynodi unrhyw Ardaloedd Morol Gwarchoddedig newydd.

Argymhelliad 7

Dylai Llywodraeth Cymru ddiffinio'r hyn y mae Rhwydwaith Ecolegol Gydlynol o MPAs yn nyfroedd Cymru yn ei olygu a dylai gydweithio â rhanddeiliaid i fynd i'r afael â bylchau yn y rhwydwaith.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn.

Mae ein dealltwriaeth o rwydwaith ecolegol gydlynol o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig i'w weld yn yr Adroddiad ar Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yng

Nghymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar (2013-2018). Mae diweddariad ar y cynnydd o ran cyflawni'r rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig i'w weld yn yr ymateb i Gwestiwn 4.

Argymhelliad 8

Un o gonglfeini rheoli MPAs yw sicrhau atebolrwydd a llwybr at gyfiawnder. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod trefniadau yn y dyfodol yn unol â Chonfensiwn Aarhus ac nad ydynt yn rhy ddrud i ymgeiswyr.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn.

Ar 18 Mawrth lanswyd ein hymgyngoriad ar Egwyddorion a Llywodraethu Amgylcheddol ar ôl Gadael yr UE. Bydd yn para tan 9 Mehefin. Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ar beth fyddai fframwaith llywodraethu cydlynol ac effeithiol i Gymru yn ei gynnwys, sy'n:

- adlewyrchu ein setliad datganoli;
- cyd-fynd â'n fframwaith deddfwriaethol cyfredol; ac
- yn ategu mecanweithiau llywodraethu cyfredol.

Gan fod hwn yn fater cymhleth sy'n gofyn am ystyriaeth ofalus, mae'r ymgynghoriad yn gofyn nifer o gwestiynau er mwyn cael sgwrs â rhanddeiliaid ar yr elfennau a'r swyddogaethau allweddol sy'n angenrheidiol i ddarparu fframwaith llywodraethu cydlynol ac effeithiol. Bydd angen ystyried hyn o ran ein setliad datganoli cyfredol hefyd.

Bydd tair colofn Confensiwn Aarhus (Mynediad i Wybodaeth, Cyfranogiad y Cyhoedd a Mynediad i Gyfiawnder) yn rhan o'n trafodaethau â rhanddeiliaid. Rydym eisoes wedi sicrhau cyfranogiad y cyhoedd gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru).

Argymhelliad 9

Rhaid i Lywodraeth Cymru asesu effaith debygol gadael yr Undeb Ewropeaidd ar MPAs Cymru, gan gynnwys a oes modd cysoni'r drefn ddynodi a rheoli, gan ymrwymo i sicrhau na chollir dim gwarchodaeth o dan drefniadau'r dyfodol. Rhaid iddi hefyd geisio cytundeb â Llywodraeth y DU ynglŷn â sut y caiff trefniadau i warchod yr amgylchedd morol eu rheoli'n gydlynol mewn ardaloedd morol sy'n croesi ffiniau.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn. Mae rhagor o wybodaeth yn yr ymatebion i Gwestiynau 6 a 7.

Argymhelliad 10

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod adroddiadau am gyflwr a statws safleoedd MPAs Cymru sy'n ofynnol ar hyn o bryd o dan ddeddfwriaeth Ewrop yn cael eu paratoi'n rheolaidd ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, gan gyhoeddi a darparu adroddiadau i awdurdodau rheoli'n brydlon.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr ymateb i Gwestiwn 8.

Argymhelliad 11

Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â Llywodraeth y DU i sicrhau bod adnoddau pysgodfeydd Cymru a buddiannau fflyd Cymru yn cael eu gwarchod yn llawn yn y trafodaethau i adael yr Undeb Ewropeaidd. Dylai trefniadau rheoli pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol ystyried Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a strategaeth MPAs Cymru.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn.

Rydym wrthi'n cynnal trafodaethau manwl ynglŷn â rheoli pysgodfeydd, rhannu cwtâu a hawliau mynediad i ddyfroedd y DU a'r UE gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a gweinyddiaeth Gogledd Iwerddon, i baratoi ar gyfer trafodaethau gwladwriaethau arfordirol manylach pan fyddwn yn gadael yr UE.

Argymhelliad 12

Rhaid i Lywodraeth Cymru egluro sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r diffyg cyllid a all fod ar gael ar gyfer gwaith MPAs gan fod y cyllid hwnnw ar hyn o bryd yn dod o gronfeydd yr UE, megis Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop a LIFE-Nature.

Gwrthododd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn, ac mae'n safbwynt yn parhau i fod yr un fath ag a nodais yn fy ymateb gwreiddiol. Llywodraeth y DU ddylai esbonio sut mae'n mynd i wneud iawn am unrhyw ddiffygion cyllid ar ôl i ni adael yr UE.

CWESTIYNAU YCHWANEGOL

1. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sydd wedi deillio o waith Llywodraeth Cymru i ddatblygu dull cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth o fonitro a goruchwylio safleoedd (yr oedd disgwyl iddo ddod i ben yn haf 2018)? Sut y mae deilliannau'r gwaith hwn wedi llywio dull Llywodraeth Cymru o fonitro safleoedd?

Rydym yn parhau i weithio'n agos â Cyfoeth Naturiol Cymru, y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur ac arbenigwyr gwyddoniaeth a pholisi eraill i ddatblygu rhaglen monitro bioamrywiaeth gost-effeithiol. Ar ôl ei sefydlu bydd yn darparu tystiolaeth i asesu a chanfod tueddiadau yng nghyflwr ac amrywiaeth biolegol ein moroedd ac yn sail i reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy. Bydd y monitro hwn yn cwmpasu'r sbectwm llawn o'n hecosystemau morol, yn ein Hardaloedd Morol Gwarchoddedig

Mae hwn yn faes cymhleth iawn ac mae gwaith i gwblhau'r rhaglen yn parhau ledled y DU. Yn y cyfamser, mae Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn parhau i fonitro ar ran Llywodraeth Cymru.

2. Ers cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor ym mis Awst 2017, pa gynnydd sydd wedi ei wneud i ganfod unrhyw fylchau o ran creu rhwydwaith ecolegol cydlynol o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yn nyfroedd Cymru, a mynd i'r afael â'r bylchau hynny? A oes unrhyw Ardaloedd Morol Gwarchoddedig newydd wedi cael eu pennu neu eu dynodi i fynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd yn yr asesiad yn 2014 a gynhaliwyd gan y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur a Cyfoeth Naturiol Cymru? Pa amserlenni ydych chi'n gweithio tuag atynt i gwblhau'r gwaith hwn?

Rwy'n parhau'n ymrwymedig i sicrhau bod Cymru'n cwblhau ei chyfraniad tuag at rwydwaith ecolegol cydlynol o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yn nyfroedd y DU, sy'n cefnogi rhwydwaith ehangach yng ngogledd-ddwyrain yr Iwerydd.

Daeth asesiad rhwydwaith 2016 i'r casgliad bod Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yng Nghymru eisoes yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at gydlyniant ecolegol. Roedd hefyd yn nodi nifer o fylchau yng nghyfraniad Cymru yr wyf yn bwriadu mynd i'r afael â nhw wrth nodi Parthau Cadwraeth Morol, gan ddefnyddio pwerau o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009).

Yn gynharach yn y mis cafodd fy swyddogion gyfarfod â rhanddeiliaid drwy'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen newydd i drafod datblygu dull cytûn o nodi Parthau Cadwraeth Morol yn nyfroedd Cymru. Ar ôl datblygu a chytuno ar ddull bydd fy swyddogion yn gweithio gyda'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen i nodi Parthau Cadwraeth Morol posibl sy'n cael eu hystyried fel rhai addas i fynd i'r afael â'r bylchau.

3. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datblygu nifer o adroddiadau cyflwr dangosol nodweddiol ar safleoedd, gyda chyfran fawr o nodweddiol safleoedd yn ymddangos i fod mewn cyflwr anffafriol neu anhysbys. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd o ganlyniad i'r asesiad hwn? Pa gynnydd sydd wedi ei wneud i ddatblygu proses barhaol a chynaliadwy ar

gyfer adrodd ar gyflwr nodweddion safleoedd y gellir eu hailadrodd yn rheolaidd?

Canfu adroddiadau cyflwr dangosol nodweddion ar lefel safleoedd Cyfoeth Naturiol Cymru bod 45% o'r holl nodweddion morol mewn cyflwr ffafriol, 45% mewn cyflwr anffafriol a bod angen rhagor o dystiolaeth cyn rhoi barn ar y nodweddion eraill. Y pwysau allweddol a nodir gan yr adroddiadau yw ansawdd dŵr, llygredd, gweithgareddau heb eu rheoleiddio a rhywogaethau estron goresgynnol. Mae fy swyddogion wedi gweithio gyda Grŵp Llywio Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig i nodi nifer o gamau gweithredu yng Nghynllun Gweithredu 2018-2019 sy'n canolbwyntio ar y materion hyn. Mae rhai camau gweithredu o natur ymchwiliol, sydd â'r nod o wella'n dealltwriaeth o'r problemau a dangos ble mae angen cyflwyno mesurau rheoli i wella cyflwr nodweddion. Mae hyn yn bwysig gan fod yr amgylchedd morol yn ddeinamig ac yn anodd i'w ragweld yn aml ac yn ymateb yn araf, felly mae angen i ni sicrhau ein bod ni'n targedu adnoddau ar gyfer y camau gweithredu mwyaf perthnasol.

Bydd y camau gweithredu i ddatblygu dull cyson seiliedig ar dystiolaeth o fonitro a goruchwylio safleoedd, fel yr amlinellir yn yr ymateb i Gwestiwn 1, yn darparu sylfaen dystiolaeth well i ni ac yn ein galluogi i ddeall cyflwr safleoedd yn well.

Mae'r prosiect i ddatblygu proses adrodd gynaliadwy a pharhaol ar gyflwr nodweddion ar lefel safleoedd ar y trywydd iawn i gyflawni argymhellion yn gynnar yn 2022. Bydd diweddariad manylach ar gynnydd yn cael ei ddarparu yn Adroddiad Blynyddol 2018-2019.

4. A allwch chi roi manylion unrhyw waith y mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ei wneud i asesu'r angen i ddynodi Ardaloedd Morol Gwarchoddedig ar gyfer rhywogaethau symudol iawn?

Mae ein Hardaloedd Morol Gwarchoddedig cyfredol yn cynnwys nifer o ardaloedd a warchodir er mwyn gwarchod rhywogaethau symudol iawn yn cynnwys adar, y dolffin trwynog, y morlo llwyd a'r Ardal Gwarchodaeth Arbennig ar gyfer y llamhidydd a ddynodwyd yn ddiweddar.

Mae'r gwaith sydd ar droed i nodi Parthau Cadwraeth Morol yn canolbwyntio, yn y lle cyntaf, ar gyflawni canlyniadau asesiad rhwydwaith 2016, a oedd yn ystyried rôl cynefinoedd a rhywogaethau nad ydynt yn gallu symud llawer yn y rhwydwaith. Cam nesaf gwaith Parthau Cadwraeth Morol fydd ystyried a oes angen rhagor o warchodaeth ofodol ar gyfer rhywogaethau symudol iawn, fel adar môr a theulu'r morfil. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen, y cyfeirir ato yn yr ateb i Gwestiwn 2, wrthi'n trafod hyn.

Gwyddom fod gwarchodaeth ofodol o fudd i rywogaethau symudol iawn ar gyfer camau allweddol mewn bywyd lle gellir nodi meysydd pwysigrwydd clir a pharhaus. Gall ecoleg rhywogaethau symudol iawn olygu ei bod hi'n well defnyddio mesurau rheoli ar lefel y môr cyfan ar gyfer eu gwarchod.

5. Pa waith yr ydych chi wedi'i wneud, ers cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor, i asesu effaith Brexit ar Ardaloedd Morol Gwarchoddedig Cymru? Gofynnir ichi

gynnwys manylion unrhyw waith paratoi i liniaru unrhyw risgiau yr ydych wedi'u canfod.

Fel Llywodraeth rydym wedi cyflwyno neges glir a chyson na fyddai'n safonau amgylcheddol yn gostwng ar ôl gadael yr UE.

Mae Cyfarwyddebau Adar a Chynefinoedd yr UE o gymorth mawr i ni gyflawni'n rhwymedigaethau bioamrywiaeth rhyngwladol a darparu mesurau diogelwch ar gyfer ein cynefinoedd pwysicaf, ein rhywogaethau prinnaf ac adar mudol. Byddwn yn cadw Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, a byddant yn parhau i gael eu nodi, eu dynodi a'u rheoli yn unol â meini prawf a gofynion y Cyfarwyddebau Adar a Chynefinoedd.

Er mwyn sicrhau na fydd yna fwlch mewn perthynas â safonau amgylcheddol yr UE sydd ar waith ar hyn o bryd, rydym wedi cyflwyno'r rhaglen fwyaf helaeth o ddeddfwriaeth erioed gan Lywodraeth Cymru dros y chwe mis diwethaf i sicrhau bod y dynodiadau gwarchod cyfredol yn parhau. Pe byddem yn gadael heb gytundeb byddai'r safonau amgylcheddol yn parhau i fod ar waith o'r diwrnod y byddwn yn gadael yr UE. Mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio â gweinyddiaethau eraill y DU i nodi a darparu'r newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol i sicrhau y bydd hi'n bosibl parhau i weithredu deddfwriaeth y DU ar ôl gadael yr UE. Mae'r gwaith deddfwriaethol yn sicrhau nad oes newid i drefniadau gwarchod cynefinoedd naturiol, rhywogaethau ac adar, yn cynnwys ein Safleoedd Morol Ewropeaidd, ar ôl gadael yr UE.

Ar ôl gadael yr UE ni fydd ein Hardaloedd Cadwraeth Arbennig a'n Hardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn cyfrannu at rwydwaith Natura 2000 yr UE. Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau ein bod ni'n parhau i reoli ac addasu'r rhwydwaith hwn o safleoedd Ewropeaidd ledled y DU. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy'r rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol a fydd yn cynnwys safleoedd cyfredol yn y DU ac unrhyw Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a ddynodir ar ôl gadael yr UE.

Bydd ein rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn parhau i fod yn rhan o gyfraniad y DU at Rwydwaith Emerald Confensiwn Bern. Ysgrifennodd y DU at ysgrifenyddiaeth Confensiwn Bern ym mis Tachwedd 2018 i gadarnhau hyn.

Mae'r rhwydwaith yn cyfrannu hefyd at rwydwaith ecolegol cydlynol o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng ngogledd-ddwyrain yr Iwerydd. Mae'r holl Ardaloedd Morol Gwarchodedig, boed yn safleoedd morol Ewropeaidd a ddynodwyd gan y DU neu'n safleoedd cenedlaethol a ddynodwyd o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009), yn cynnwys cyfraniad y DU at rwydwaith OSPAR o Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

6. Pa gamau penodol yr ydych wedi'u cymryd i sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i gynnal mesurau gwarchod amgylcheddol morol ar ôl Brexit?

Bydd y Ddeddf Ymadael, o'i gweithredu, yn trosglwyddo'r Acquis Ewropeaidd i gyfraith y DU. Fel y nodir yn yr ymateb i Gwestiwn 5, cynhaliwyd rhaglen ddeddfwriaethol ar raddfa fawr ledled y DU i sicrhau bod modd gweithredu'r ddeddfwriaeth UE hon a gedwir ar ôl gadael yr UE. Rydym wedi bod yn cyflwyno

Offerynnau Statudol hefyd i sicrhau y bydd modd gweithredu'n deddfwriaeth drosi ddomestig hefyd. Bydd hyn yn sicrhau na fydd ein safonau amgylcheddol yn gwanhau o gwbl wrth i ni adael yr UE.

7. Pa gynnydd sydd wedi'i wneud rhwng Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig o ran cytuno ar fecanwaith i barhau i reoli ardaloedd morol trawsffiniol, ar ôl Brexit?

Bydd trefniadau rheoli cyfredol yn parhau i fod yn berthnasol ar gyfer rheoli ardaloedd morol trawsffiniol ar ôl gadael yr UE.

8. Pa drefniadau fydd ar waith ar ôl Brexit i asesu ac yna adrodd ar gyflwr a statws safleoedd Ardaloedd Morol Gwarchoddedig Cymru, y tu hwnt i'r gofyniad adrodd chwe blynedd yn Neddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009?

Ar ôl gadael yr UE, bydd Llywodraeth Cymru'n adrodd ar weithredu mesurau i gyflawni amcanion Cyfarwyddebau Adar a Chynefinoedd yn unol â'r gofynion cyfredol. Nod y gofynion adrodd yw sicrhau eu bod o leiaf yn adlewyrchu'r rhai sydd yn Erthygl 17 o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd ac Erthygl 12 o'r Gyfarwyddeb Adar. Bydd yr adroddiadau'n cael eu cyhoeddi i sicrhau tryloywder ein perfformiad amgylcheddol a'i fod yn destun trefniadau craffu.

Trwy ofynion adrodd yr UE yn y Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar mae'r DU yn cyflawni rhwymedigaethau adrodd fel parti sy'n rhan o Gonfensiwn Bern ar hyn o bryd. Ar ôl gadael yr UE byddwn yn adrodd bob chwe blynedd ar statws cadwraeth rhywogaethau a chynefinoedd a restrir o dan Gonfensiwn Bern. I raddau helaeth, yr un rhywogaethau a chynefinoedd yw'r rhain ag a restrir yn y Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar.

Byddwn yn parhau hefyd i fod â gofynion adrodd fel partïon contract Comisiwn OSPAR Commission, ac ASCOBANS.

9. Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynghylch trefniadau ariannu ar gyfer gweithgareddau rheoli morol ar ôl Brexit? Beth oedd canlyniad y trafodaethau hynny?

10. A allwch chi ddarparu manylion ynghylch unrhyw waith ar Ardaloedd Morol Gwarchoddedig sy'n cael ei ariannu ar hyn o bryd gan gronfeydd yr UE, megis Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop a LIFE-Nature, a fyddai'n wynebu risg pe na bai cyllid tebyg ar gael ar ôl Brexit?

Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd â'm swyddogion cyfatebol ledled y DU i drafod trafodaethau'r UE a pha mor barod ydym fel gwledydd yng nghyfarfodydd pedair ochrog y gwledydd datganoledig.

Rwy'n disgwyl i Lywodraeth y DU anrhydeddu ei hymrwymiad i warantu holl raglenni ariannu'r UE yn llawn ar ôl i ni adael yr UE. Mae hyn yn cynnwys talu costau gweinyddu'r rhaglenni a defnyddio cyfradd gyfnewid briodol. O ran yr holl drefniadau

ariannu ar ôl i ni adael yr UE, rwy'n glir na ddylai Cymru dderbyn ceiniog yn llai o ganlyniad i adael yr UE.

Mewn sefyllfa gadael heb gytundeb mae Llywodraeth y DU wedi gwarantu y bydd prosiectau LIFE sy'n cael eu hariannu gan arian yr UE ar hyn o bryd yn parhau i gael eu hariannu gan Drysorlys EM am oes y prosiectau. O ddod i gytundeb, byddant yn parhau i gael eu hariannu gan yr UE am oes y prosiectau. Mae Trysorlys EM yn ystyried opsiynau i ddisodli arian LIFE yn y tymor hir ar ôl i ni adael yr UE. Mae fy swyddogion yn pwysu ar Drysorlys EM i ddarparu'r arian hwn i Lywodraeth Cymru.

Mae fy swyddogion yn parhau i gymryd rhan lawn yn nhrefodaethau Uwch Grŵp Llywio Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop y DU. Yn ddiweddar, bu'r Grŵp yn trafod natur fregus gadael heb gytundeb, a chynigion ar gyfer gweinyddu'r arian ychwanegol ar gyfer y diwydiant pysgota a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig fis Rhagfyr diwethaf.

11. A allwch chi gadarnhau a oes arian ychwanegol ar gael ar gyfer gwaith ar Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yn dilyn ymestyn swyddogaethau gweithredol Gweinidogion Cymru ar gyfer cadwraeth forol i ranbarth môr mawr Cymru ym mis Ebrill 2018? Os felly, faint o arian? Os na, beth yw'r rhesymau dros hyn?

Rwyf wedi cynyddu'r gyllideb Môr a Physgodfeydd i gefnogi'n swyddogaethau estynedig yn yr ardal forol ar y môr. Mae yna ddyraniad ychwanegol o £600,000 ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-2020. Bydd elfennau o'r arian ychwanegol hwn yn cefnogi'r gwaith o nodi a dynodi ardaloedd gwarchoddedig newydd yn y ranbarth morol dyfnach ar y môr, fel bo angen, i gwblhau'n cyfraniad tuag at rwydwaith ecolegol cydlynol o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig wedi'i reoli'n dda.

DIWEDDARIAD CYNNYDD INTERIM AR GYFLAWNI'R CYNLLUN GWEITHREDU AR GYFER RHEOLI'R RHWYDWAITH O ARDALOEDD MOROL GWARCHODEDIG 2018-2019

CAM GWEITHREDU	MANYLION	AWDURDODAU RHEOLI ARWEINIOL	DIWEDDARIAD
1	Datblygu dull o gyflawni asesiadau cyflwr Ardaloedd Morol Gwarchodedig gwell a chyfnodol.	Cyfoeth Naturiol Cymru	Mae'r cam gweithredu hwn yn barhaus ac ar y trywydd iawn i'w gwblhau. Dechreuodd gwaith i ddatblygu'r dull yn Hydref 2018 ar ôl derbyn grant EMFF.
2	Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig drwy brosesau cydsynio rheoliadol.	Pob awdurdod rheoli	Mae'r cam gweithredu hwn yn barhaus o ystyried natur statudol y prosesau sy'n sail i'r cam gweithredu hwn.
Tudalen y pecyn 72 3	Gwella hygyrchedd data monitro morol.	Cyfoeth Naturiol Cymru	<p>Mae'r cam gweithredu hwn yn barhaus. Mae data monitro o 2015, 2016 a 2017 ar gyfer nodweddion gwaddodion ACA ledled dyfroedd Cymru wedi'i sicrhau o ran ansawdd. Mae'r data hwn ar gael bellach i'w ddefnyddio mewn dadansoddiadau ac adroddiadau ar newid amgylcheddol. Y cynefinoedd sy'n cael eu cwmpasu yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 2015: 5 morlyn arfordirol, 3 aber, 1 bae • 2016: 5 morlyn arfordirol, 6 banc tywod, 8 bae, 1 ymchwiliad bae • 2017: 5 morlyn arfordirol, 8 bae, 1 banc tywod <p>Bydd arian a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni'r cam gweithredu hwn yn cael ei ddwyn ymlaen i flwyddyn ariannol 2019-2020 er mwyn gallu cwblhau'r cam gweithredu. Bydd hyn yn cwmpasu data gwaddodion a riff islanw'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.</p>
4	Datblygu rhaglen fonitro seiliedig ar risg ymhellach a'i gweithredu ledled	Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyd-	Mae'r cam gweithredu hwn yn barhaus gydag amserlen ddangosol ar gyfer cwblhau erbyn blwyddyn ariannol 2020-

	rhwydwaith yr Ardaloedd Morol Gwarchoddedig	bwyllgor Cadwraeth Natur a Llywodraeth Cymru	2021.	
Tudalen y pecyn 73	5	Datblygu dull ar gyfer mireinio amcanion cadwraeth ar gyfer yr holl Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yng Nghymru gan barhau i gyhoeddi canllawiau ar gyfer safleoedd newydd fel bo angen.	Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur	Mae'r cam gweithredu hwn yn barhaus ac ar y trywydd iawn i'w gwblhau. Cyhoeddwyd amcanion cadwraeth ar gyfer AGA Gogledd Bae Ceredigion a thair ACA llamhidydd drawsffiniol yng Nghymru. Cwblhawyd adolygiad a chymhariaeth o amcanion cadwraeth Cyfoeth Naturiol Cymru, a phrofwyd senarios gwahanol ddulliau ar gyfer amcanion cadwraeth ym mhroses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.
	6	Datblygu Strategaeth Gwarchod Dolffiniaid a Llamhidyddion y DU.	Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru	Mae'r cam gweithredu hwn yn barhaus. Mae'r gwaith datblygu ar y Strategaeth yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl. Rydym yn rhagweld y bydd ymgynghoriad ar y Strategaeth yn cael ei gynnal yn ddiweddarach eleni.
